# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cynhyrchu, Dosbarthu ac Arddangos: hanes uwchgwmnïau'r cyfryngau

## Gweithgaredd Cychwynnol (Adnodd Digidol 2a)

**Beth mae'r logo hwn yn ei olygu i chi?**




## Tasg 1

**Daw'r rhan fwyaf o gyllideb *Gravity* gan Warner Brothers. Mae hyn yn golygu bod 'Warner Bros.', fel y gelwir y stiwdio, yn rheoli'r gyllideb cynhyrchu ac yna'n marchnata, yn hyrwyddo ac yn 'dosbarthu' y ffilm i sinemâu (ar ffurf ddigidol ers 2013). Mae Warner Bros. felly yn cael ffi am ddarparu ffilm ar gyfer arddangoswr. Hyd at ychydig o flynyddoedd yn ôl, roedd yn berchen ar gadwyn o sinemâu hefyd, sef Warner Village. Gwerthwyd y sinemâu – sinemâu Vue ydyn nhw bellach.  Yn wir, mae TimeWarner – sef cydsoddiad yn wreiddiol rhwng cylchgrawn *Time* a'i ymerodraeth cyhoeddi enfawr a Warner Bros. – bellach wedi symleiddio yr hyn mae'n berchen arno i dair prif adran, fel y byddwch yn ei weld ar ôl i chi wneud rhywfaint o waith ymchwil. Er nad yw hyn wedi'i adlewyrchu yn enw'r cwmni, mae cylchgrawn *Time* a'r adran gyhoeddi wedi cael eu gwerthu ers Mehefin 2014.**

**Edrychwch ar gynrychioliadau graffig rhiant-gwmni Warner Bros., TimeWarner, sy'n dangos pa 'gwmnïau' cyfryngau sy'n eiddo i TimeWarner.**

- **Sut byddech chi'n disgrifio prif 'ddiddordebau' pob un o'r 'adrannau', sef Warner Bros., HBO a Turner Broadcasting Systems Inc.?**
- **Pam rydych chi'n credu y gwerthwyd ymerodraeth cyhoeddi cylchgrawn *Time* ym mis Mehefin 2014?**

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cynhyrchu, Dosbarthu ac Arddangos: hanes uwchgwmnïau'r cyfryngau

**Mae'n cynnwys tair adran:**
**Warner Brothers, HBO a Turner Broadcasting Systems**

Mae'r busnes hwn wedi'i hen sefydlu, ac mae ei ddiddordebau yn y cyfryngau'n amrywio o deledu a phrif ffilmiau i adloniant yn y cartref, ac mae'n cynnwys y canlynol: **Warner Bros. Pictures, Warner Bros. Interactive Entertainment, Warner Bros. Television, Warner Bros. Animation, Warner Home Video, New Line Cinema, Castle Rock Entertainment, theWB.com,** a **DC Entertainment.**

Mae HBO yn gweithredu **sianel HBO** mewn dros **70 o wledydd** gyda **127 miliwn o bobl yn tanysgrifio**. Mae rhaglenni HBO wedi eu trwyddedu i rwydweithiau teledu eraill mewn dros **150 o wledydd**. Mae HBO wedi ennill mwy o wobrau **Emmy** nag unrhyw rwydwaith arall.

Mae Turner Broadcasting Systems Inc. yn gweithredu rhwydweithiau cyfryngau newyddion rhyngwladol, adloniant, animeiddio a phlant / oedolion ifanc. Mae brandiau Turner yn cynnwys CNN, Cartoon Network, TCM. Mae ei frandiau'n frandiau UDA a rhyngwladol, gyda 150 o sianeli mewn 36 iaith mewn mwy na 200 o wledydd ledled y byd.

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cynhyrchu, Dosbarthu ac Arddangos: hanes uwchgwmnïau'r cyfryngau

## Trosolwg: TimeWarner yn 2013, y flwyddyn y rhyddhawyd *Gravity*

- Cynhyrchodd busnesau rhyngwladol HBO a Turner **$3 biliwn mewn refeniw.**
- Roedd **Time Inc.** – yn benodol y cylchgrawn blaenllaw *Time* a oedd yn rhan o TimeWarner yn 2013 – yn cyrraedd bron i hanner yr holl oedolion yn UDA bob mis.
- Roeddd **safleoedd digidol Warner Brothers'**, yn arbennig ei safle adloniant a sefydlwyd yn 2005, TMZ.com, sy'n hel clecs am enwogion, yn cael mwy na 24 miliwn o ymwelwyr unigryw yn 2013.
- Fe wnaeth safleoedd Time Inc. yn UDA ddenu mwy na 50 miliwn o ymwelwyr unigryw ar gyfartaledd yn 2013.
- Mae **Ultraviolet**, sy'n cael ei gefnogi gan Warner Brothers, yn rhoi mynediad hwylus i ddefnyddwyr at gopïau digidol o'i gasgliadau ffilm o unrhyw ddyfais. Tyfodd hyn yn sylweddol yn 2013 wrth i gyfrifon UV dyfu 65% i dros **15 miliwn o gyfrifon**.
- Roedd refeniw domestig (Gogledd America) Warner Brothers yn 2013 yn **$1.9 biliwn**, a'i refeniw dramor oedd **$3.14 biliwn**, gan wneud cyfanswm o **$5.04 biliwn**, i fyny o $4.25 biliwn yn 2012.
- Ysgogwyd perfformiad y stiwdio gan amrywiaeth dda o ffilmiau, gan gynnwys y ffilm Superman newydd *Man of Steel* ($662.8 miliwn), *Gravity* ($653.3) – efallai ffilm lwyddiannus fwyaf annisgwyl y flwyddyn, a *The Hobbit: The Desolation of Smaug*, sydd wedi ennill $633.1 miliwn hyd yma.
- Roedd hyn yn golygu mai Warner Brothers oedd y 'stiwdio' Hollywood fwyaf llwyddiannus yn 2013.

## Gweithgaredd 2: (adnodd digidol 2b)

**Edrychwch ar fanylion materion busnes TimeWarner a gwnewch y canlynol:**

Mewn parau, rhestrwch sut gallai pŵer enfawr TimeWarner yn y cyfryngau wneud y canlynol:

- Cynnig manteision i gynhyrchwyr *Gravity*
- Cynnig manteision i gynulleidfa *Gravity*.

## Tasg 3

Beth yw'r problemau gyda'r math hwn o bŵer yn y cyfryngau?

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cynhyrchu, Dosbarthu ac Arddangos: hanes uwchgwmnïau'r cyfryngau

## Tasg 4: TimeWarner ac uwchgwmnïau eraill y cyfryngau

**Mae TimeWarner yn un o uwchgwmnïau cyfryngau mwyaf y byd – lle caiff diddordebau ffilm, teledu, rhyngweithio ar-lein, print ac adloniant eu cyfuno. Gelwir hyn yn 'integreiddiad fertigol' – lle gall cwmni ehangu ei elw trwy fod yn berchen ar gwmnïau sy'n rhannu'r un diddordebau – diddordebau'n ymwneud â'r cyfryngau yn yr achos hwn. Mae pob un o brif 'stiwdios' UDA wedi cael eu hintegreiddio'n fertigol, ac maen nhw'n berchen ar ystod o ddiddordebau ffilm a chyfryngau, gan gynnwys nwyddau traul electroneg yn aml hefyd (fel Sony a Comcast).**

– **Archwiliwch beth sy'n eiddo i bob un o brif uwchgwmnïau'r cyfryngau, sef *Comcast*, *The Walt Disney Corporation*, *TimeWarner*, *Sony*, *News Corporation* a *Viacom* yn y categorïau canlynol:**

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cynhyrchu, Dosbarthu ac Arddangos: hanes uwchgwmnïau'r cyfryngau

| | **Comcast** | **The Walt Disney Company** | **TimeWarner** | **Sony** | **News Corporation** | **Viacom** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffilm** | **Universal, Focus Features, Working Title** | **Disney, Touchstone Pictures, Pixar** | **Warner Bros., Castlerock films** | **Columbia Pictures, Sony Pictures Classics** | **20th century Fox, Fox Searchlight** | **Paramount Pictures** |
| **Teledu** | | | | | | |
| **Cerddoriaeth** | | | | | | |
| **Cyfryngau Print** | | | | | | |
| **Adloniant rhyngweithiol (e.e. gemau fideo)** | | | | | | |
| **Nwyddau traul electroneg** | | | | | | |
| **Diddordebau adloniant a hamdden** | | | | | | |

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cynhyrchu, Dosbarthu ac Arddangos: hanes uwchgwmnïau'r cyfryngau

## Tasg 5 (Adnodd Digidol 2c)

**Darllenwch y darn canlynol am gyfleusterau cynhyrchu Warner Brothers yn y DU.**

**http://www.thelocationguide.com/blog/2014/07/ng-studio-news-warner-bros-studios-leaves-den-to-expand-filming-facilities-with-new-sound-stages/**

**Cwestiynau**

- **Pa effaith gadarnhaol bydd agor y cyfleuster hwn yn y DU yn ei chael ar ddiwydiant ffilm Prydain?**
- **A oes unrhyw bwyntiau negyddol yn gysylltiedig â'r cyfleuster Warner Brothers hwn?**

## Tasg 6

**Gan ddefnyddio beth rydych chi wedi ei ddarganfod am *Gravity*, TimeWarner ac uwchgwmnïau eraill y cyfryngau, archwiliwch un ffilm fawr arall sydd wedi cael ei chynhyrchu gan un o uwchgwmnïau'r cyfryngau. Rhowch enghreifftiau o'r ffyrdd amrywiol y mae'r ffilm yn gallu gwneud arian ar gyfer yr uwchgwmni.**